


Geiriau'r Caneuon

Song Lyrics

[Cefndir](#) a mynediad i lawrlwytho/ Background and [download link](#)



Mae'r geiriau canlynol yn cydfynd â'r CD 'Cân y Gân', Tryfan - TRF 514, drwy gydweithrediad cwmni Sain. Lyrics to accompany 'Cân y Gân', Tryfan - TRF 514 CD in co-operation with Sain.Cyf.

Enw/ Song title	Perfformiad/ Sung by	Cyfansoddwr/ Composer & Cyhoeddwr/ Publisher	Tudalen/ Page
Cân y Gân	Linda Griffiths	Alun Huws © Cyhoeddiadau Mwldan Trwyddedwyd gan Recordiau Fflach	2
Yma o Hyd	Dafydd Iwan ac ar Log	Dafydd Iwan © Cyhoeddiadau Sain	4
Anfonaf Angel	Rhys Meirion	Robat Arwyn; Hywel Gwynfryn © Cyhoeddiadau Sain	6
Ceidwad y Goleudy	Bryn Fôn	Emyr Huws Jones © Cyhoeddiadau Sain	7
Mae'n wlad i mi <i>This is your land</i>	Dafydd Iwan	Woody Guthrie, cyf. Dafydd Iwan © Tro Essex Music	8
Gwahoddiad Mi glywaf dyner lais	Côr meibion Pendyrus/ Seindorf Cory	Lewis Hartsough, trefn. John Tudor Davies cyf. Ieuan Gwyllt © Hughes a'i Fab (EMI Music Publishing Ltd)	9
Lleucu Llwyd	Tebot Piws	Dewi Morris © Cyhoeddiadau Sain	10
Un dydd ar y tro One day at a time	Trebor Edwards	Kris Kristofferson / Marijohn Wilkin, cyf. Margaret Edwards © Valentine Music Group Ltd	11
Pam fod eira'n wyn	Dafydd Iwan	Dafydd Iwan © Cyhoeddiadau Sain	13
Safwn yn y bwlch	Hogia'r Wyddfa	Richard Morris; Glyn Roberts © Cyhoeddiadau Sain	15
Ysbryd y nos	Edward H. Dafis	Hefin Elis; Cleif Harpwood © Cyhoeddiadau Sain	16
Chwarae'n troi'n chwerw	Bando	Caryl Parry Jones, Myfyr Isaac © Cyhoeddiadau Sain	17
Myfanwy	Côr y Brythoniaid	Joseph Parry; Mynyddog © Domaine Publique	19
Hen feic Peni-ffardding fy nhaid	Triawd y Coleg	Meredydd Evans © Cyhoeddiadau Sain	20
Ar lan y môr	Dafydd Iwan	Tradd., trefn. Tudur Morgan © Cyhoeddiadau Sain	22
Lawr ar lan y môr	Parti'r Ffynnon	Tradd., trefn. Morfudd Maesaleg © Cyhoeddiadau Sain	23
Tylluanod	Hogia'r Wyddfa	Arwel Jones, © Cyhoeddiadau Sain; R Williams Parry © Gwasg Gee	26
Pan fo'r nos yn hir	Hogia'r Wyddfa	Ryan Davies © Ryan Davies	28
Mae gen i gariad	Tony ac Aloma	Tony Jones © Tony Jones	29
Y Dref wen	Tecwyn Ifan	Tecwyn Ifan © Cyhoeddiadau Sain	31
Diolchiadau			33

Mae'r geiriau canlynol yn cydfynd â'r CD 'Cân y Gân', Tryfan - TRF 514, drwy gydweithrediad cwmni Sain. Lyrics to accompany 'Cân y Gân', Tryfan - TRF 514 CD in co-operation with Sain.Cyf.

1. Cân y Gân

Tri o'r gloch y bore a dwi'n gorwedd yma ers orie
 A chwsg mor bell ac erioed.
 Ac yna drwy'r tywyllwch, fel awel drwy'r tawelwch
 Cân aderyn yn y coed.
 Ac yn yr eiliad honno, a'r awyr yn goleuo
 Daeth y gân a gwên i ngwyneb i
 Mae'r rhith sydd yn yr alaw wedi troi y nos yn ddydd
 Ac mae'r stryd i gyd yn deffro i gân y deryn du.

Cytgan

*Cana gân, a channa hi o'r galon, cana gân i gadw'r ofnau draw
 Cana gân i erlid dy ofalon, cana yn yr heulwen, cana yn y glaw.*

Mae hi lawr wrth lan yr afon dan y coed a'u blodau gwynion
 Yn creu patrymau yn y gwllith.
 Mae'n dawnsio fel angyles, yn troedio fel eboles
 Tro i'r dde a thro i'r chwith.
 Mae'n dawel ar y dorlan, dim smic yn dod o unman,
 Dim ond y miwsig yn ei phen.
 Ond er ei bod yn fyddar ma hi'n clywed nodau'r gân
 Ac mae'r rhythm yn ei chalon yn gyrru'r ddawns ymlaen.

Cytgan

*Cana gân, a channa hi o'r galon, cana gân i gadw'r ofnau draw
 Cana gân i erlid dy ofalon, cana yn yr heulwen, cana yn y glaw.*

Mae o'n eistedd yno'n llonydd fel ynys mewn llifogydd
Yn syllu 'mhell bell i ffwrdd,
Ond pan ddaw'r nyrs i chwarae'r l-pod - hen gân mae o'n adnabod
Mae'n codi ei ben oddi ar y bwrdd
Ac mae llygaid Henry 'n dawnsio,
yn gwneud y Jive a gwneud y Tango
A'r gân yn llifo fel y gwin.
Mae o'n ifanc unwaith eto ac yn morio canu'r gân
Y gân sydd yn ei galon, a'n calonnau ni bob un.

Cytgan

*Cana gân, a channa hi o'r galon, cana gân i gadw'r ofnau draw
Cana gân i erlid dy ofalon, cana yn yr heulwen, cana yn y glaw.*

2. Yma o Hyd

Dwyt ti'm yn cofio Macsen,
 Does neb yn ei nabod o;
 Mae mil a chwe chant o flynyddoedd
 Yn amser rhy hir i'r cof;
 Pan aeth Magnus Maximus o Gymru
 Yn y flwyddyn tri-chant-wyth-tri,
 A'n gadael yn genedl gyfan
 A heddiw: wele ni!

Cytgan

*Ry'n ni yma o hyd, Ry'n ni yma o hyd,
 Er gwaetha pawb a phopeth, Er gwaetha pawb a phopeth,
 Er gwaetha pawb a phopeth. Ry'n ni yma o hyd.*

*Ry'n ni yma o hyd, Er gwaetha pawb a phopeth, Er gwaetha pawb a
 phopeth, Er gwaetha pawb a phopeth, Ry'n ni yma o hyd.*

Chwythed y gwynt o'r Dwyrain,
 Rhued y storm o'r môr,
 Hollted y mellt yr wybren
 A gwaedded y daran encôr,
 Llified dagrau'r gwangalon
 A llyfed y taeog y llawr
 Er dued yw'r fagddu o'n cwmpas
 Ry'n ni'n barod am doriad y wawr!

Cytgan

*Ry'n ni yma o hyd, Ry'n ni yma o hyd,
Er gwaetha pawb a phopeth, Er gwaetha pawb a phopeth,
Er gwaetha pawb a phopeth. Ry'n ni yma o hyd.*

*Ry'n ni yma o hyd, Er gwaetha pawb a phopeth, Er gwaetha pawb a
phopeth, Er gwaetha pawb a phopeth, Ry'n ni yma o hyd.*

Cofiw'n i Facsen Wledig

Adael ein gwlad yn un darn
A bloeddiwn gerbron y gwledydd
'Mi fyddwn yma tan Ddydd y Farn!
Er gwaetha pob Dic Sion Dafydd,
Er gwaetha 'rhen Fagi a'i chriw
Byddwn yma hyd ddiwedd amser
A bydd yr iaith Gymraeg yn fyw!

Cytgan

*Ry'n ni yma o hyd, Ry'n ni yma o hyd,
Er gwaetha pawb a phopeth, Er gwaetha pawb a phopeth,
Er gwaetha pawb a phopeth. Ry'n ni yma o hyd.*

*Ry'n ni yma o hyd, Er gwaetha pawb a phopeth, Er gwaetha pawb a
phopeth, Er gwaetha pawb a phopeth, Ry'n ni yma o hyd.*

*Ry'n ni yma o hyd,
Er gwaetha pawb a phopeth, Er gwaetha pawb a phopeth,
Er gwaetha pawb a phopeth. Ry'n ni yma o hyd.*

*Ry'n ni yma o hyd, Er gwaetha pawb a phopeth, Er gwaetha pawb a
phopeth, Er gwaetha pawb a phopeth, Ry'n ni yma o hyd.*

3. Anfonaf Angel

Mae hymian hwyr y ddinas yn fy neffro.
 Am eiliad, rwyf yn credu dy fod yno.
 A chlywaf alaw isel, dy lais yn galw'n dawel.
 Anfonaf angel, i dy warchod di.

Cytgan

Anfonaf angel, i dy warchod heno.
Anfonaf angel, i'th gysuro di.
Mae sŵn dy lais yn ddigon, i chwalu'r holl amheuon.
Anfonaf angel atat ti.

Ac ambell waith, yng nghanol berw bywyd,
 rwy'n teimlo'n unig ac yn isel hefyd.
 Ond pan rwyf ar fy nglinia', fe welaf drwy fy nagra',
 a chofio'r eiria, ddywedaist wrthai i.

Cytgan

Anfonaf angel, i dy warchod heno.
Anfonaf angel, i'th gysuro di.
Mae sŵn dy lais yn ddigon, i chwalu'r holl amheuon.
Anfonaf angel atat ti.

Ti yw yr angel sydd yma yn wastadol,
 yn gofalu amdanaf, lle bynnag y byddaf.
 Ti yw fy angel, fy angel gwarcheidiol.
 Dw i'n cofia'r geiriau, ddwedaist wrtha i.

Cytgan x2

Anfonaf angel, i dy warchod heno.
Anfonaf angel, i'th gysuro di.
Mae sŵn dy lais yn ddigon, i chwalu'r holl amheuon.
Anfonaf angel atat ti.

4. Ceidwad y Goleudy

Wrth gwrs fe gei di gerdded ar hyd fy llwybr,
Cei fynd lle y mynni ar fy nhir.

Wrth gwrs fe gei di gasglu mlodau harddaf,
Dim ond i ti addo dweud y gwir.

Wrth gwrs fe gei di gerdded i fy mwthyn,
Cei gynna' y tân a hwylio'r te.

Wrth gwrs fe gei di groeso ar fy aelwyd,
Dim ond i ti esbonio be' 'di be.

Cytgan

*Dyma gan a achubwyd o donnau y moroedd
Fe'i gwelwyd yno'n boddi gan geidwad y goleudy
Fe'i clywodd yn gweiddi 'A wnei di f'achub i?'
Cân a oedd yn llithro rhwng muriau llaith anghofio
Ceidwad y goleudy ydwyf i.*

*Dyma gan a achubwyd o donnau y moroedd
Fe'i gwelwyd yno'n boddi gan geidwad y goleudy
Fe'i clywodd yn gweiddi 'A wnei di f'achub i?'
Cân a oedd yn llithro rhwng muriau llaith anghofio
Ceidwad y goleudy ydwyf i.*

Wrth gwrs gei di weddi wrth fy allor
Rhoddaf glustiau fy Nuw yn eiddo i ti
Wrth gwrs cei fedyddio dy blant yn nŵr fy ffynnon
Dim ond i ti ddysgu ngharu i

*Dyma gan a achubwyd o donnau y moroedd
Fe'i gwelwyd yno'n boddi gan geidwad y goleudy
Fe'i clywodd yn gweiddi 'A wnei di f'achub i?'
Cân a oedd yn llithro rhwng muriau llaith anghofio
Ceidwad y goleudy ydwyf i. Ceidwad y goleudy ydwyf i.*

5. Mae'n Wlad imi

Rwy'n cofio troedio ar lwybrau unig,
Ar foelydd maethion, yr hen Arenig.
A chlyw n yr awel, yn dweud yn dawel.
Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.

Cytgan

*Maen wlad i mi ac mae'n wlad i tithau.
o ben yr Wyddfa i lawr i'w thraethau.
O De i'r Gogledd, O Fôn i Fynwy,
Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.*

Rwy'n cofio gweled y Ddyfrdwy yn loetran,
wrth droed yr Aran fel llinyn arian
A tonnau'n sisial, ar lannau Tegid
Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.

Cytgan

*Maen wlad i mi ac mae'n wlad i tithau.
o ben yr Wyddfa i lawr i'w thraethau.
O De i'r Gogledd, O Fôn i Fynwy,
Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.*

Mae tywod euraid, ar draeth Llangrannog.
Ar môr yn wyrdd las yn mae Llanbedrog.
O ddwfn yr eigion, clywn clychau'n canu
Maer wlad hon yn eiddo i ti a mi.

Cytgan

*Maen wlad i mi ac mae'n wlad i tithau.
o ben yr Wyddfa i lawr i'w thraethau.
O De i'r Gogledd, O Fôn i Fynwy,
Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.*

6. Gwahoddiad

Mi glywaf dyner lais, yn galw arnaf fi,
I ddod a golchi 'meiau gyd,
Yn afon Calfarî.

Cytgan

*Arglwydd, dyma fi, ar dy alwad di,
Golch fi'n bur lan yn y gwaed
A gaed ar Galfarî.*

Yr Iesu sy'n fy ngwadd, i dderbyn gyda'i saint,
Ffydd, gobaith, cariad pur a hedd,
A phob rhyw nefol fraint.

Cytgan

*Arglwydd, dyma fi, ar dy alwad di,
Golch fi'n bur lan yn y gwaed
A gaed ar Galfarî.*

Gogoniant byth am drefn, y cymod a'r glanhad;
Derbyniaf Iesu fel yr wyf,
A chanaf am y gwaed.

Cytgan

*Arglwydd, dyma fi, ar dy alwad di,
Golch fi'n bur lan yn y gwaed
A gaed ar Galfarî.
Amen, Amen, Amen.*

7. Lleucu Llwyd

Cytgan

*Lleucu Llwyd, rwyt ti'n hardd,
Lleucu Llwyd, rwyt ti'n werth y byd i mi,
Lleucu Llwyd, rwyt ti'n angel,
Lleucu Llwyd, rwy'n dy garu di di di.*

O rwy'n cofio cwrdd a thi ac rwy'n cofio'r glaw.
Ydi'r eos yn y goedwig? Ydi'r blodau yn y maes gerllaw?
Yn yr afon mae cyfrinach dy gusan gyntaf di.
Yn y goedwig mae y blodau yn sibrwd dy enw di.

Cytgan

*Lleucu Llwyd, rwyt ti'n hardd,
Lleucu Llwyd, rwyt ti'n werth y byd i mi,
Lleucu Llwyd, rwyt ti'n angel,
Lleucu Llwyd, rwy'n dy garu di di di.*

O mae'r oriau man yn pasio, fel eiliad ar adain y gwynt;
O gorweddaf ar fy ngwely efallai daw'r freuddwyd yn gynt.
O mae rhywun yn agosáu mi glywaf wichian y glwyd,
Ac rwy'n nabod sŵn yr esgid, mae'n perthyn i Lleucu Llwyd.

Cytgan

*Lleucu Llwyd, rwyt ti'n hardd,
Lleucu Llwyd, rwyt ti'n werth y byd i mi,
Lleucu Llwyd, rwyt ti'n angel,
Lleucu Llwyd, rwy'n dy garu di di di i i i.*

Mae'r geiriau canlynol yn cydfynd â'r CD 'Cân y Gân', Tryfan - TRF 514, drwy gydweithrediad cwmni Sain. Lyrics to accompany 'Cân y Gân', Tryfan - TRF 514 CD in co-operation with Sain.Cyf.

8. Un Dydd ar y Tro

Un dydd ar y tro fy Iesu,
 Yma fy hunan, nid wyf ond bychan,
 Dysg i mi weld yr hyn ydwyf i a'r hyn allwn fod.
 Dangos fy nghyfle, beth bynnag y bo.
 I weithio dros Dduw, ond dysg i mi fyw un dydd ar y tro.

Cytgan:

*Mae ddoe wedi mynd fy Iesu,
 Yfory gall fod yn rhy hwyr,
 Bydd Di wrth y llyw i'm harwain i fyw
 Fy nyddiau yn llwyr;
 A dysg i mi wneud fy ngorau i bawb, pwy bynnag y bo,
 O Iesu fab Duw, dysg i mi fyw, Un dydd ar y tro.*

Buost dy hunan ar y ddaear fel fi
 O Iesu fab Duw dysg i mi fyw, yn fwy tebyg i Ti;
 Cerdded fy llwybr er garwed y bo,
 O cymer fy llaw, beth bynnag a ddaw, Un dydd ar y tro.

Cytgan:

Mae ddoe wedi mynd fy Iesu,

Yfory gall fod yn rhy hwyr,

Bydd Di wrth y llyw i'm harwain i fyw

Fy nyddiau yn llwyr;

A dysg i mi wneud fy ngorau i bawb, pwy bynnag y bo,

O Iesu fab Duw,

Dysg i mi fyw,

Un dydd ar y tro.

9. Pam fod Eira'n Wyn

Pan fydd haul ar y mynydd, Pan fydd gwynt ar y môr,
 Pan fydd blodau yn y perthi, A'r goedwig yn gôr;
 Pan fydd dagrau f'anwlyd, Fel gw lith ar y gwawn,
 Rwy'n gwybod, bryd hynny, Mai hyn sydd yn iawn.

Cytgan:

Rwy'n gwybod beth yw rhyddid,

Rwy'n gwybod beth yw'r gwir,

Rwy'n gwybod beth yw cariad

At bobol ac at dir;

Felly peidiwch â gofyn eich cwestiynau dwl,

Peidiwch edrych arna i mor syn,

Dim ond ffêl sydd yn gofyn

Pam fod eira yn wyn.

Pan fydd geiriau fy nghyfeillion, Yn felys fel y gwin,
 A'r seiniau mwyn, cynefin, Yn dawnsio ar eu min,
 Pan fydd nodau hen alaw, Yn lleddfu fy nghlyw,
 Rwy'n gwybod beth yw perthyn, Ac rwy'n gwybod beth yw byw!

Cytgan:

Rwy'n gwybod beth yw rhyddid,

Rwy'n gwybod beth yw'r gwir,

Rwy'n gwybod beth yw cariad

At bobol ac at dir;

Felly peidiwch â gofyn eich cwestiynau dwl,

Peidiwch edrych arna i mor syn,

Dim ond ffŵl sydd yn gofyn

Pam fod eira yn wyn.

Pan welaf graith y glöwr, Ar gwaed ar y garreg las.

Pan welaf lle bu'r tyddynwr, Yn cribo gwair i'w das.

Pan gofia'f pren y gorthrwm, A gwr y bachgen tlawd.

Rwy'n gwybod fod rhaid i minnau, Sefyll dros fy mrawd.

Cytgan:

Rwy'n gwybod beth yw rhyddid, Rwy'n gwybod beth yw'r gwir,

Rwy'n gwybod beth yw cariad. At bobol ac at dir;

Felly peidiwch â gofyn eich cwestiynau dwl,

Peidiwch edrych arna i mor syn, Dim ond ffŵl sydd yn gofyn

Pam fod eira yn wyn.

Felly peidiwch â gofyn eich cwestiynau dwl, Peidiwch edrych arna i mor syn, Dim ond ffŵl sydd yn gofyn

Pam fod eira yn wyn.

10. Safwn yn y Bwlch

Safwn yn y bwlch gyda'n gilydd yn nawr,
Mae Cymru ein hangen ni,
Torrodd y wawr wedi'r hirnos ddu,
Daeth gwawrddydd ei rhyddid ni,

Safwn yn y bwlch gyda her yn ein trem,
Yn ffyddlon, yn driw iddi hi,
Mae Cymru'n ein gwaed, gofalwn am hon,
A mynnwn ei rhyddid hi,

Cytgan:

*Gyda'n gilydd fe safwn ni, Gyda'n gilydd fe safwn ni,
Dros ein iaith, dros ein gwlad, Dros ein pobl, dros ein plant,
Gyda'n gilydd fe safwn ni.*

Safwn yn y bwlch gyda'n gobaith yn fflam, Mae tân yn ein calon ni,
Na ildiwn 'run fodfedd na symud 'run cam, Cyn ennill ei rhyddid hi,
Safwn yn y bwlch ac enillwn y dydd, ni all un peth ein rhwystro ni.
Mae Cymru yn galw, ymdrechwn dros hon,
Daeth gwawrddydd ei rhyddid hi.

Cytgan:

*Gyda'n gilydd fe safwn ni, Gyda'n gilydd fe safwn ni,
Dros ein iaith, dros ein gwlad, Dros ein pobl, dros ein plant,
Gyda'n gilydd fe safwn ni.
Gyda'n gilydd fe safwn ni, Gyda'n gilydd fe safwn ni,
Dros ein iaith, dros ein gwlad, Dros ein pobl, dros ein plant,
Gyda'n gilydd fe safwn ni.*

11. Ysbryd y Nos

Pan ddaw lleisiau'r nos i 'mhoeni, a sibrwd gwag y gwynt i'm hoeri,
ti sy'n lliwio'r blode' a mantell gwllith y bore; tyrd, Ysbryd y Nos.

A'r tonnau'n llusgo'r cregyn arian, i siffrwd yn ei lifrai sidan,
mi wn y byddi yno, yn barod i'm cysuro; tyrd, Ysbryd y Nos.

Cytgan

*Ysbryd y Nos, tyrd yma'n awr, gwasgara'r ofnau cyn daw'r wawr;
diffodd y t'wyllwch, tyrd a'r dydd: gad i'm ddod o'r nos yn rhydd.*

Pleth dy wallt mewn rhuban euraidd, yn gynnes yn dy olau peraidd,
a bysedd brau y barrug, yn deffro hyd y cerrig; tyrd, Ysbryd y Nos.

Cytgan

*Ysbryd y Nos, tyrd yma'n awr, gwasgara'r ofnau cyn daw'r wawr;
diffodd y t'wyllwch, tyrd a'r dydd: gad i'm ddod o'r nos yn rhydd.*

Ysbryd y Nos, rho d'olau mwyn, Ysbryd y Nos, rho i'm dy swyn,
Ysbryd y Nos, fel angel y dydd, Ysbryd y Nos, enaid y pridd.

Ac yno yn y dyffryn tawel, mi glywaf gân yn sŵn yr awel.

A neges hyd y geiria' yn hedfan dros y brynie; tyrd, Ysbryd y Nos.

*Ysbryd y Nos, tyrd yma'n awr, gwasgara'r ofnau cyn daw'r wawr;
diffodd y t'wyllwch, tyrd a'r dydd: gad i'm ddod o'r nos yn rhydd.*

*Ysbryd y Nos, tyrd yma'n awr, gwasgara'r ofnau cyn daw'r wawr;
diffodd y t'wyllwch, tyrd a'r dydd: gad i'm fod, gad i'm fod yn rhydd.*

12. Chwarae'n troi'n chwerw

Mae'th fywyd di yn ddedwydd, rwyt ti'n fodlon ar dy fyd.

Ond mae 'na rywbeth bach yng nghefn dy ben, sy'n dy boeni di o hyd

Ti'n syrthio mewn i'r fagl, heb wybod be di be.

A does dim ar ôl ond rhyw syniad ffôl, yr aiff popeth nôl i'w le.

Cytgan

Ac mae chwarae'n troi'n chwerw, mae'r gwin yn troi'n sur.

Mae'r wen yn troi'n ddaugrau, a'r wefr yn troi'n gur.

Ac os wyt ti'n rhywle yn gwrando ar fy nghân,

Cofia bod chwarae'n troi'n chwerw, wrth chware fo tân.

Ac yna bob yn dipyn, mae'r darnau'n dod ynghyd.

Ti'n dod i ddeall sut mae cael, y gorau o ddau fyd.

Mae'n dod yn haws deud celwydd, sy'n swnio fel y gwir.

A ti'n gwybod yn iawn fod y gwpan yn llawn, a bod y ffordd o'th flaen yn glir.

Ac mae chwarae'n troi'n chwerw, mae'r gwin yn troi'n sur.

Mae'r wen yn troi'n ddaugrau, a'r wefr yn troi'n gur.

Ac os wyt ti'n rhywle yn gwrando ar fy nghân,

Cofia bod chwarae'n troi'n chwerw, wrth chware fo tân.

Mae bywyd yn rhy fyr, ac amser yn mynd yn brin.

Ti'n ymladd a'th gydwybod, ond yn fodlon ildio ar ddim.

Ti'n trio peidio gwrando, ar y geiriau yn dy ben.

Ti'n cyffwrdd ar gwirionedd, sy'n gudd tu ôl i'r llen

Ti'n trio cae dy lygaid, ar beth a sut a phwy.

Ond ti'n gwybod yn glir bod pob dim yn wir, a bod y gwir yn brifo mwy.

*Cytgan**Ac mae chwarae'n troi'n chwerw, mae'r gwin yn troi'n sur.**Mae'r wen yn troi'n ddagrau, a'r wefr yn troi'n gur.**Ac os wyt ti'n rhywle yn gwrando ar fy nghân,**Cofia bod chwarae'n troi'n chwerw, wrth chware fo tân.**Ac mae chwarae'n troi'n chwerw, mae'r gwin yn troi'n sur.**Mae'r wen yn troi'n ddagrau, a'r wefr yn troi'n gur.**Ac os wyt ti'n rhywle yn gwrando ar fy nghân,**Cofia bod chwarae'n troi'n chwerw, wrth chware fo tân.**Ond mae chwarae'n troi'n chwerw, mae'r gwin yn troi'n sur.**Mae'r wen yn troi'n ddagrau, a'r wefr yn troi'n gur.**Ac os wyt ti'n rhywle yn gwrando ar fy nghân,**Cofia bod chwarae'n troi'n chwerw, wrth chware fo tân.**Ond mae chwarae'n troi'n chwerw, mae'r gwin yn troi'n sur.**Mae'r wen yn troi'n ddagrau, a'r wefr yn troi'n gur.**Ac os wyt ti'n rhywle yn gwrando ar fy nghân,**Cofia bod chwarae'n troi'n chwerw, wrth chware fo tân.**Ond mae chwarae'n troi'n chwerw, mae'r gwin yn troi'n sur.**Mae'r wen yn troi'n ddagrau, a'r wefr yn troi'n gur.**Ac os wyt ti'n rhywle yn gwrando ar fy nghân,**Cofia bod chwarae'n troi'n chwerw, wrth chware fo tân.*

13. Myfanwy

Paham mae dicter, O Myfanwy, yn llenwi' th lygaid duon di?

A'th ruddiau tirion, O Myfanwy, heb wrido wrth fy ngweled i?

Pa le mae'r wên oedd ar dy wefus,

fu'n cynnau 'nghariad ffyddlon ffôl?

Pa le mae sain dy eiriau melys, fu'n denu'n nghalon ar dy ôl?

Pa beth a wneuthum, O Myfanwy, i haeddu gwg dy ddwyrudd hardd?

A'i chwarae oeddit, O Myfanwy â thanau euraidd serch dy fardd?

Wyt eiddo i'm drwy gywir amod, ai gormod cadw'th air i mi?

Ni cheisiaf fyth mo'th law, Myfanwy, heb gael dy galon gyda hi.

Myfanwy boed yr holl o'th fywyd, dan heulwen disglair canol dydd.

A boed i rosyn gwridog iechyd, i ddawnsio gan mlwydd ar dy rudd.

Anghofiai'r oll o'th addewidion, a wnest i rywun, 'ngeneth ddel.

A dyro'th law, Myfanwy dirion.

I ddim ond dweud y gair "Ffarwel".

14. Hen Feic Peni-ffardding fy Nhaid

Mae 'na rai sydd yn hoffi trafeilio,

Yn gyffyrddus a swel mewn MG,

Mae rhai eraill yn dewis y bysus a'r trêns,

Ond mae'n llawer iawn gwell gennyf i,

Cytgan:

Hen feic peni ffardding fy nhaid, wel sticio at hwnnw sydd raid,

Fydd y dyrfa yn heidio i'm gweld i yn reidio

Hen feic peni ffardding fy nhaid.

Aeth y trip ysgol Sul rhyw ddiwrnod,

Draw i Fangor am dro hefo'r traen,

Ond er cysgu yn hwyr ni chynhyrfais i ddim,

A chyrhaeddais y ddinas o'u blaen

Ar hen feic peni ffardding fy nhaid, wel sticio at hwnnw sydd raid,

Fydd y dyrfa yn heidio i'm gweld i yn reidio

Hen feic peni ffardding fy nhaid.

Pan yn reidio ar sbêd rhyw ben bore,
 Fe ddaeth plismyn mewn car ar fy ôl,
 Ond mi bedlais yn wallgof a'n trwyn ar y bar,
 A phan stopiais, ro'n i yn y North Pôl.

*Ar hen feic peni ffardding fy nhaid, Wel sticio at hwnnw sydd raid,
 Fydd y dyrfa yn heidio i'm gweld i yn reidio
 Hen feic peni ffardding fy nhaid.*

Mi briodaf fel pob creadur gwirion,
 Os caf afael ar ferch fach gwerth chweil,
 Ond ni chymraf 'run tacsï i'm cludo i'r Llan,
 Mi af yno fy hunan mewn steil.

*Ar hen feic peni ffardding fy nhaid, Wel sticio at hwnnw sydd raid,
 Fydd y dyrfa yn heidio i'm gweld i yn reidio
 Hen feic peni ffardding fy nhaid.*

*Hen feic peni ffardding fy nhaid, Wel sticio at hwnnw sydd raid,
 Fydd y dyrfa yn heidio i'm gweld i yn reidio
 Hen feic peni ffardding fy nhaid.*

15. Ar lan y Mor

Ar lan y môr mae rhosys cochion.

Ar lan y môr mae lilis gwynion

Ar lan y môr mae 'nghariad inne

Yn cysgu'r nos a chodi'r bore.

Ar lan y môr mae carreg wastad

Lle bûm i'n siarad gair â'm cariad

O gwmpas hon mae teim yn tyfu

Ac ambell sbrigyn o rosmari.

Ar lan y môr mae cerrig gleision

Ar lan y môr mae blodau'r meibion

Ar lan y môr mae pob rinwedde

Ar lan y môr mae nghariad inne.

Dros y môr y mae fy nghalon,

Dros y môr mae'n obeithion.

Dros y môr y mae fy anwylyd

Su'n fy meddwl i pob munud

16. Lawr ar Lan y Mor

Mi gwrrddais i a bachgen del.

Lawr ar lan y môr

Lawr ar lan y môr

Lawr ar lan y môr

Mi gwrrddais i a bachgen del.

Lawr ar lan y môr

Lawr ar lan y môr

Cytgan

O O O rwy'n dy garu di,

O O rwy'n dy garu di,

Y bachgen ar lan y môr,

O O O rwy'n dy garu di,

O O O rwy'n dy garu di,

Y bachgen ar lan y môr.

Gofynnais am un gusan bach,

Lawr ar lan y môr,

Lawr ar lan y môr,

Lawr ar lan y môr.

Gofynnais am un gusan fach,

Lawr ar lan y môr,

Lawr ar lan y môr.

*Cytgan**O O O rwy'n dy garu di,**O O rwy'n dy garu di,**Y bachgen ar lan y môr,**O O O rwy'n dy garu di,**O O O rwy'n dy garu di,**Y bachgen ar lan y môr.*

Mi gefais i un gusan fach,

Lawr ar lan y môr,

Lawr ar lan y môr,

Lawr ar lan y môr.

Mi gefais i un gusan fach,

Lawr ar lan y môr,

Lawr ar lan y môr.

*Cytgan**O O O rwy'n dy garu di,**O O rwy'n dy garu di,**Y bachgen ar lan y môr,**O O O rwy'n dy garu di,**O O O rwy'n dy garu di,**Y bachgen ar lan y môr.*

Rhyw ddiwrnod fe briodwn ni,

Lawr ar lan y môr,

Lawr ar lan y môr,

Lawr ar lan y môr.

Rhyw ddiwrnod fe briodwn ni,

Lawr ar lan y môr,

Lawr ar lan y môr

Lawr ar lan y môr.

Cytgan

O O O rwy'n dy garu di,

O O rwy'n dy garu di,

Y bachgen ar lan y môr,

O O O rwy'n dy garu di,

O O O rwy'n dy garu di,

Y bachgen ar lan y môr

Y bachgen ar lan y môr

Y bachgen ar lan y môr.

17. Tylluannod

Pan fyddai'r nos yn olau,
 A llwch y ffordd yn wyn,
 A'r bont yn wag sy'n croesir dwr difwstwr yn Mhen Llyn,
 Y tylluanod yn eu tro
 Glywid o Lwyncoed Cwm y Glo.
 Tw-whit, tw-hw

Pan siglai'r hwyaid gwylltion
 Wrth angor dan y lloer,
 A Llyn y Ffridd ar Ffridd y Llyn
 Trostynt yn chwipio'n oer,
 Lleisio'n ddidostur wnaent i ru
 Y gwynt o Goed y Mynydd Du.
 Tw-whit, tw-hw

Pan lithrai gloywddŵr Glaslyn
 I'r gwyll, fel cledd i'r wain,
 Pan gochai pell ffenestri'r plas
 Rhwng briglas lwyni'r brain,
 Pan gaeai syrthni safnau'r cŵn,
 Nosâi Ynysfor yn eu sŵn.
 Tw-whit, tw-hw

A phan dywylla'r cread
Wedi'i wallgofddydd maith,
A dyfod gosteg ddiystwr
Pob gweithiwr a phob gwaith,
Ni bydd eu Lladin, ar fy llw,
Na llon na lleddf, - "Tw-whit, tw-hw!"
Tw-whit, tw-hw
Tw-whit, tw-hw

18. Pan Fo'r Nos yn Hir

Pan fyddo'r nos yn hir, a phell y wawr.

Brwydro drwy'r oriau hir.

Heb gwsg un awr.

Ymladd a throi a throi, drwy'r oriau maith.

Heb weled diwedd ddoe.

Na phen i'r daith.

Cytgan

Yna drwy'r tywyllwch du, gwelaf dy wyneb di

Wrth gofio rhamant, cau mae'r amrant.

Pan fo'r nos yn hir.

Yna drwy'r tywyllwch du, gwelaf dy wyneb di

Wrth gofio'r rhamant, cau mae'r amrant.

Pan fo'r nos yn hir.

19. Mae gen i Gariad

Mae gen i gariad, *y fi yw honno*.

Pan fydd na ddawnsio yn y dre mi fyddwn yno.

Mae gen i trowsus tynn, *a miniau'n gwyn*.

Yn dawnsio gyda'r miwsig nid yw'r amser byth yn bwysig
dos na'm bwys am neb— ond ein dau.

A chario mlaen ar ôl i bobman arall cau

Ac mae hi'n un, dau tri o'r gloch

Ac mae yn un, dau, tri o'r gloch

Ac mae yn un, dau a tri o'r glo-o-o-och

A dyna pan ddaw'r diwrnod i ben

A dyna pan ddaw'r diwrnod i ben.

Mae gen i gariad, *y fi yw honno*.

A does dim bai am fod fy nhad a'n mam yn fflamio.

Maent yn gweiddi drachefn i ddod adre mewn trefn

Ond ar ôl iddi nosi a phawb arall sydd yn cysgu,

Dyna'r amser gora'i garu a ma pawb yn gwybod hynny.

Does dim bai ar neb gusanu.

Ond mae'r amser siŵr o fynnu fynd yn

Un, dau, tri o'r gloch

I fynd yn un, dau, tri o'r gloch

I fynd yn un a dau a tri o'r glo-o-o-och

A dyna pan ddaw y diwrnod i ben.

A dyna pan ddaw y diwrnod i ben.

Mae gen i gariad, *y fi yw honno*

Mi fyddwn ni yn wŵr a gwraig rhyw ddydd gobeithio

Rwy'n dy garu di, *a minnau ti.*

Mi gawn gartref gyda'n gilydd a chawn garu heb 'run cywilydd

A bydd deuddeg awr y dydd, ddim digon hir,

Hanner nos

Naci, *wir*

Mi fydd yn un, dau, tri o'r gloch,

Mi fydd yn un, dau, tri o'r gloch

Mi fydd yn un, dau a thri o'r glo-o-och

a dyna pan ddaw'r diwrnod i ben, a dyna pan ddaw'r diwrnod i ben.

Mi fydd yn un, dau, tri o'r gloch,

Mi fydd yn un, dau, tri o'r gloch

Mi fydd yn un, dau a thri o'r glo-o-och

a dyna pan ddaw'r diwrnod i ben.

a dyna pan ddaw'r diwrnod i ben.

a dyna pan ddaw'r diwrnod i ben.

a dyna pan ddaw'r diwrnod i ben

20. Y Dref Wen

Y Dref Wen yn y dyffryn,
 Heno heb arf nac offeryn;
 Ar wyneb y gwellt gwêl y gwaed
 A drodd y pridd yn llaid.

Cytgan:

*Ond awn i ail adfer bro,
 Awn i ailgodi'r to,
 Ail oleuwn y tŷ,
 Pwy a saif gyda ni?*

Y Dref Wen, chwâl ei meini,
 Heno yn brudd yn ei hoerni,
 Ddaeth 'na neb i holi pam
 Mai marw yw'r fflam.

Cytgan:

*Ond awn i ail adfer bro,
 Awn i ailgodi'r to,
 Ail oleuwn y tŷ,
 Pwy a saif gyda ni?*

Y Dref Wen wrth y coed,
Hiraeth am gadw oed,
Ciliodd pawb o'r hyfryd fro,
Stafell Cynddylan sydd dan glo.

Cytgan:

Ond awn i ail adfer bro,
Awn i ailgodi'r to,
Ail oleuwn y tŷ,
Pwy a saif gyda ni?

Awn i ail adfer bro,
Awn i ailgodi'r to,
Ail oleuwn y tŷ,
Pwy a saif?
Pwy a saif?
Pwy a saif gyda ni?

Diolchiadau

Hoffai Cân y Gân ddiolch i'n noddwyr a'n cyfranogwyr sydd wedi sicrhau fod pawb sydd yn byw gyda dementia yn cael mynediad i gerddoriaeth eu diwylliant.

Mae diolch arbennig yn mynd i Ferched y Wawr, am eu nodd a chefnogaeth ddi-ffael, Canolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR), Dydd Miwsig Cymru, a Sain am eu cymorth diflino.

Diolch hefyd i Alistair O'Mahoney, myfyriwr Cerddoriaeth fu ar gynllun interniaeth er mwyn casglu enwebiadau a gwireddu'r casgliad *Cân y Gân*. Mae y clawr yn waith gan Phil Townson, cerddor sydd yn byw â dementia fu yn rhan o ymchwil Prifysgol Bangor- Dementia a'r Dychymyg.

Ond, heb os, ein cyfranogwyr sydd wedi sicrhau'r llwyddiant mwyaf a anfonodd hyd at 600 awgrym o'u hoff ganeuon eu hieuenctid. Hebddynt nhw fyddai'r adnodd hwn o ddim yn bosib.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n safle we <http://dsdc.bangor.ac.uk/welsh-music.php.cy>

Acknowledgements

Cân y Gân has been a collaboration from day one and we would like to thank our sponsors and contributors with nearly 600 song suggestions. We hope that you will share this resource and enjoy an opportunity to share Welsh medium songs with those living with dementia.

Special thanks must be given to Merched y Wawr for their unfailing support, the Centre for Aging and Dementia Research, Welsh Language Music Day and Sain for their continuing assistance and support. The artwork on the cover was created by a musician, Phil Townson who lives with dementia during his time on Dementia and Imagination research project.

Alistair O'Mahoney, a Music Graduate also worked on the project as part of Bangor University Internship programme. For more information please visit our webpage <http://dsdc.bangor.ac.uk/welsh-music.php.en>



Llun ymateb ir gerddoriaeth wrth ei chyhoeddi/ *Photo at our launch event 19/7/19*

Mae'r geiriau canlynol yn cydfynd â'r CD 'Cân y Gân', Tryfan - TRF 514, drwy gydweithrediad cwmni Sain. Lyrics to accompany 'Cân y Gân', Tryfan - TRF 514 CD in co-operation with Sain.Cyf.